Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 27 Medi 2017 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D W Helliwell | P Jones |
| L G Thomas | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Julian Morgans | Rheolwr Hyfforddiant Budd-daliadau ac Ansawdd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D Phillips, A Pugh, C Richards a/ac G J Tanner

---

## 14 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 23 Awst 2017 fel cofnod cywir.

## 16 Adborth/Cyflwyniadau gan Aelodau ar eu Hymchwil - Trawsnewid Cymunedau'n Gyntaf.

Gohiriwyd yr eitem i gyfarfod yn y dyfodol gan mai dim ond heddiw oedd y pwyllgor yn cael eu briffio ar drawsnewidiad Cymunedau'n Gyntaf.

## 17 Trawsnewid Cymunedau'n Gyntaf.

Rhoddodd Pennaeth Tlodi a'i Atal adroddiad 'er gwybodaeth' mewn perthynas â Thrawsnewidiad Cymunedau'n Gyntaf.

Roedd yn amlinellu manylion datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 14 Chwefror 2017 a oedd yn trafod y broses o ddileu Cymunedau'n Gyntaf yn raddol.

Fel rhan o'r cyhoeddiad, bydd gwerth bron £12m o gyllid ar gael ledled Cymru o fis Ebrill 2018 ar gyfer cefnogaeth cyflogadwyedd, gan gefnogi'r rhaglen Cymunedau am Waith. Bydd gan awdurdodau lleol y cyfle i gyflwyno'r isadeiledd newydd hwn cyn mis Ebrill 2018. Byddai'r cyllid hwn yn sicrhau isadeiledd ar gyfer cyflwyniad parhaus Cymunedau am Waith yn ogystal â chefnogaeth barhaus ar gyfer rheoli, costau adeiladau a swyddi mentora a chynnwys ychwanegol – Grant Cyflogadwyedd yw'r enw ar hyn.

Mae Abertawe wedi'i gadarnhau fel un o bedwar awdurdod lleol ar draws Cymru a fydd yn 'fabwysiadwr cynnar' o'r Grant Cyflogadwyedd ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddileu rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn raddol erbyn 31 Rhagfyr 2017 a rhoi strwythur ar waith ar gyfer cyflwyno'r Grant Cyflogadwyedd o 1 Ionawr 2018.

Amlinellodd yr egwyddorion a'r ystyriaethau allweddol canlynol ar gyfer y cynllun:

- Amserlenni;
- Staffio;
- Sefydliadau trydydd parti (Ffydd mewn Teuluoedd a Menter Chwarae Plant Bonymaen);
- Adeiladau.

Rhoddodd hefyd fanylion am raglen Esgyn sydd wedi bod ar waith yng nghlwstwr y gogledd-orllewin (Penderi). Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y dylai'r rhaglen ESGYN yn Abertawe, fel mabwysiadwr cynnar, fod yn rhan o'r broses drawsnewid ehangach fel bod staff yn cael cyfle teg a chyfartal i ymgeisio, o bosib, am rolau a fydd ar gael drwy'r Grant Cyflogadwyedd.

Er y dyluniwyd rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i gyflwyno 'prosiectau' cytunedig yn lleol, ni fyddai'r Grant Cyflogadwyedd newydd yn cyflwyno prosiectau o'r fath. Byddai'r Grant Cyflogadwyedd yn darparu mentora un-i-un dwys ar gyfer cyfranogwyr.

Gwahoddwyd cynghorwyr â chlystyrau Cymunedau'n Gyntaf yn eu wardiau i gyfarfod ym mis Hydref i dderbyn diweddariad o ran y broses drawsnewid, gyda chyfarfodydd bob yn ail mis hefyd wedi'u trefnu.

Roedd y pwyllgor yn teimlo y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Datblygu a chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y broses drawsnewid a chael gwahoddiad i unrhyw gyfarfodydd diweddaru perthnasol.

## 18 Ymateb Cyngor Abertawe a Phartneriaeth Abertawe ehangach i roi'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn ar waith.

Cyflwynodd Pennaeth Tlodi a'i Atal a'r Rheolwr Hyfforddiant Budd-daliadau ac Ansawdd nodyn briffio a oedd yn rhoi gwybodaeth am y newid i Gredyd Cynhwysol (CC) yn Abertawe. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Cefndir am y newid, dyddiadau allweddol ac eithriadau;

- Ymateb i'r gwasanaeth gan yr Is-adran Budd-daliadau Tai a'r Tîm Hawliau Lles;
- Y ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddarparu cefnogaeth bellach;
- Gwybodaeth friffio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n disgrifio ei hymateb lleol.

Nododd y Rheolwr Hyfforddiant Budd-daliadau ac Ansawdd y byddai angen cefnogaeth ddigidol ar hawlwyr i'w helpu i gwblhau hawliad CC ar-lein yn ogystal â chymorth i gynnal eu CC yn y dyfodol mewn perthynas â darparu tystiolaeth am geisiadau swyddi, etc.

Bydd y Gwasanaeth Lles a Ffyniant Oedolion, y Tîm Budd-daliadau Tai, y Tîm Hawliau Lles a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn archwilio cyfleoedd i ddarparu dwy lefel o gefnogaeth ddigidol o'r Ganolfan Gyswllt, gan adeiladu ar y gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Cymorth ar unwaith gyda hawliadau CC ac ymrwymiadau;
- Hyfforddiant a chefnogaeth bellach, gan gynnwys cyfeirio i wasanaethau partner eraill i ddatblygu gallu unigolion.

Cynhelir hyfforddiant i staff Budd-daliadau Tai tua chanol mis Tachwedd cyn rhoi'r gwasanaeth ar waith ym mis Rhagfyr.

Roedd y gwaith partneriaeth ehangach a nodwyd i gefnogi'r mater yn cynnwys:

- Mapio darpariaeth ar draws y bartneriaeth;
- Deall dyblygu a gweithio ar y cyd i fwyafu'r defnydd o adnoddau, arbed costau ac ailgyfeirio er mwyn llenwi bylchau mewn gwasanaethau;
- Cymryd ymagwedd bartneriaeth ehangach at gyflwyno Cefnogaeth Cyllidebu Personol;
- Darparu cyngor ar y cyd ac edrych ar ddeunyddiau hyrwyddo ar y cyd i sicrhau y cyflwynir negeseuon cyson;
- Gweithio'n rhagweithiol gyda staff rheoli a phersonél lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w helpu i ddarparu cyngor a gwaith ar atebion cydweithredol er mwyn lliniaru'r problemau y mae hawlwyr yn eu hwynebu.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol. Cafwyd trafodaeth hir wedyn gydag awgrymiadau amrywiol yn cael eu gwneud, gan gynnwys syniadau ar sut gellid lledaenu cyngor i'r cyhoedd mor eang â phosib.

## 19 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2017-2018.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith.

**20 Amserau Cyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017-2018.**

Tynnwyd yr eitem yn ôl gan fod y pwyllgor eisoes wedi cytuno y dylai cyfarfodydd ddechrau am 4pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.40 pm

**Cadeirydd**